






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Grŵp Cyngor Technegol

Amrywiolyn sy'n Peri Pryder (VOC
2020/12/01) ac Addysg yng
Nghymru

07 Ionawr 2021



Briff y Grŵp Cyngor Technegol: Amrywiolyn sy'n Peri Pryder (VOC 202012/01) ac Addysg yng Nghymru (7 Ionawr 2021)

Negeseuon Allweddol

- Mae Amrywiolyn sy'n Peri Pryder newydd 202012/01 yn fwy trosglwyddadwy na'r "math gwylt" presennol SARS-CoV-2, ac mae'n fwy tebygol mai hwn fydd yr amrywiolyn trechaf yng Nghymru ymhlieth y boblogaeth gyfan o fewn wythnosau (hyder uchel).
- Er mwyn cyrraedd a chynnal Rt islaw 1 wrth i hyn ddigwydd, bydd angen mabwysiadu ymddygiadau a rheoliadau sy'n lleihau risg ym mhob sector ac agwedd ar fywyd, a'u cynnal i lefelau uchel (hyder uchel).
- Er bod y rhaglen frechu yn mynd rhagddi, yr ymddygiadau a'r mesurau rheoli sy'n lleihau risg sydd eisoes wedi cael eu cyfleu yn ystod y pandemig (ymyriadau anfferyllol) yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau cyfraddau trosglwyddo, i bawb (hyder uchel).
- Nid oes dystiolaeth bod yr amrywiolyn newydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau iechyd gwaeth i blant nac oedolion unigol (hyder canolig). Nid yw'n glir eto p'un a yw lledaeniad cyflymach yr amrywiolyn hwn yn gyson ymhlieth pob grŵp oedran, neu a oes mwy o gynnydd mewn cyfraddau trosglwyddo mewn perthynas ag amrywiolynnau eraill ymhlieth rhai grwpiau oedran. Ceir niwed uniongyrchol gysylltiedig â COVID-19 o ganlyniad i gyfraddau trosglwyddo uwch ymhlieth y boblogaeth gyfan.
- Wrth i'r amrywiolyn newydd ddod yn fwy blaenllaw, ac o ganlyniad i gyffredinrwydd a chyfraddau profion positif presennol COVID-19 yng Nghymru, mae'n annhebygol y byddai'r ymyriadau anfferyllol sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru yn ddigonol i gadw R islaw 1 gydag ysgolion cynradd neu uwchradd ar agor yn llawn. Byddai Rt yn is petai ysgolion ar gau oherwydd byddai llai o gymysgu cymdeithasol (hyder cymedrol/uchel).
- Mae angen gwneud gwaith modelu pellach i ddeall effeithiau uniongyrchol yr amrywiolyn newydd ar ganlyniadau iechyd, er mwyn llywio opsiynau i lleihau'r niweidiau iechyd uniongyrchol ac anuniongyrchol a niweidiau cymdeithasol ac economaidd ehangach i blant a'r boblogaeth ehangach, wrth ddarparu gofal plant, cynnal ysgolion ac addysg, rhoi brechlynnau a rhoi lefelau rhybudd ar waith.

Amrywiolyn sy'n Peri Pryder (VOC 202012/01) yng Nghymru

Mae data diweddar o Lundain, Dwyrain a De-ddwyrain Lloegr yn dangos y gwnaeth yr Amrywiolyn sy'n Peri Pryder (202012/01, neu VOC yn y ddogfen hon) dyfu i 98% o

achosion mewn tair wythnos unwaith y cyrhaeddodd 25% o achosion.¹ Mae cyfradd trosglwyddo uwch yr amrywiolyn yn arwain at fwy o achosion, hyd yn oed gyda chyfngiadau symud ar waith, ac yna at gynnydd sylweddol mewn gweithgarwch ysbytai dros gyfnod byr (hyder uchel).

Amcangyfrifir bod gan VOC 202012/01 fantais trosglwyddo o gymharu â llinachau eraill mewn dwy ffordd: ar ffurf cynnydd adiol mewn Rt rhwng 0.4 a 0.7 ac, fel arall, ar ffurf cynnydd lluosol mewn Rt â mantais rhwng o 50% a 75%.² Mae dystiolaeth ragarweiniol ychwanegol yn awgrymu bod yr amrywiolyn yn lledaenu'n gyflymach na'i ragflaenwyr, ei fod wedi parhau i dyfu yn ystod y cyfngiadau symud yn Lloegr pan welwyd lleihad mewn llinachau eraill, a bod ei werth R 1.47 gwaith yn uwch ar unrhyw adeg benodol.³ Mae canlyniadau rhagarweiniol o astudiaeth carfan Public Health England⁴ yn awgrymu nad oes gwahaniaeth ystadegol sylweddol mewn cyfnodau yn yr ysbyty a chyfradd y marwolaethau ymhliith achosion o'r haint o fewn 28 diwrnod rhwng achosion sydd â'r amrywiolyn ac achosion cymharol sydd â'r math gwylt. Hefyd, nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn y tebygolrwydd o ailheintio rhwng achosion o'r amrywiolyn a'r grŵp cymharol.

Nid yw'n glir eto p'un a yw lledaeniad cyflymach yr amrywiolyn hwn yn gyson ymhliith pob grŵp oedran, neu a oes mwy o gynnydd mewn cyfraddau trosglwyddo mewn perthynas ag amrywiolynnau eraill ymhliith rhai grwpiau oedran. (SAGE 74, 22 Rhagfyr)

Mae achosion o'r VOC yn parhau i gynyddu yng Nghymru ar gyfradd sylweddol, ond mae'r data'n anwadal oherwydd y Nadolig a threfniadau profi anghyson ar gyfer yr amrywiolyn rhwng rhanbarthau. Hefyd, ni chaiff achosion eu profi'n gyson am fethiant targed genyn S (prawf procsi VOC) yng Nghymru. Mae hyn yn peri mwy o ansicrwydd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn Ne Cymru, lle y caiff canran is o samplau eu profi am fethiant targed genyn S oherwydd y gwahaniaethau yn y pecynnau profi a gaiff eu defnyddio gan Labordai Goleudy.

Mae'n debygol, o'r data dilyniant genom a methiant targed genyn S, nad y VOC oedd yn llwyr gyfrifol am y cynnydd cyflym mewn achosion yng Nghymru cyn cyfnod gwyliau'r Nadolig. Nid yw'n hawdd deall cydymffurfiaeth â rheoliadau COVID-19, gan fod camddealltwriaeth yn bosibl⁴ ond byddai'n ymddangos nad yw rhai ymddygiadau cyhoeddus a phreifat wedi adlewyrchu cysyniad cyffredin o'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo COVID-19 ar lefel y boblogaeth. Ni waeth beth fo'r man cychwyn,

¹ PHE, Investigation of novel SARS-CoV-2 variant: Variant of Concern (1 Rhagfyr 2020) Tabl 1


² Imperial, Transmission of SARS-CoV-2 Lineage B.1.1.7 in England: Insights from linking epidemiological and genetic data (31 Rhagfyr 2020)

³ Virological, Lineage-specific growth of SARS-CoV-2 B.1.1.7 during the English national lockdown (30 Rhagfyr 2020)
⁴ PHE, Investigation of novel SARS-CoV-2 variant (1 Rhagfyr 2020)

⁴ Gweler, er enghraift, Michie S., West R., Harvey N. [The concept of tackling "fatigue" in covid-19](#). BMJ (2 Tachwedd 2020) a Reicher S., Drury J. [Pandemic fatigue? How adherence to covid-19 regulations has been misrepresented and why it matters](#). BMJ (7 Ionawr 2021).


mae'n debygol y bydd cynnydd yng nghyffredinrwydd y VOC yn arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfradd twf SARS-CoV-2 a'r gyfradd R a welir yng Nghymru.

Mae Ffigur 1 yn dangos y cynnydd yn absenoldeb genyn S (procsi ar gyfer yr amrywiolyn newydd) dros amser, a'r cynnydd o gymharu â'r mathau blaenorol o'r feirws.



Ffigur 1. Yr holl brofion genyn S yng Nghymru, yn ôl dyddiad casglu'r sampl, ac absenoldebau genyn S (amrywiolyn – 1 mewn glas golau, math nad yw'n amrywiolyn 0 mewn oren) – data o 2 Ionawr (lechyd Cyhoeddus Cymru)


O fewn Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae 50% o achosion wedi cael eu profi am absenoldeb genyn S, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu ei bod yn debygol mai'r VOC yw 64% o'r achosion hynny. Mae hyn yn gynnydd o 90% yn y VOC mewn wythnos (Ffigur 2). Byddai'r nifer cymharol fawr o samplau Piler 2 Betsi Cadwaladr sydd wedi cael eu profi am fethiant targed genyn S yn awgrymu bod niferoedd sylweddol o'r amrywiolyn yng Ngogledd Cymru a'i bod yn debygol mai'r amrywiolyn fydd y mwyafrif helaeth o achosion newydd (90%+) o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf (hyder cymedrol-uchel).



Ffigur 2. Achosion o'r VOC fel canran o brofion positif am fethiant targed genyn S, fesul Bwrdd lechyd (2 Ionawr 2021) (lechyd Cyhoeddus Cymru)

Yn Ffigur 2, mae'r gostyngiadau ymddangosiadol diweddar yn y VOC mewn rhai rhannau o Dde Cymru yn anghywir, fwy na thebyg, ac yn gamarweiniol o bosibl, oherwydd oedi wrth fesur yn ystod y gwyliau.

Mae'n debygol iawn bod gan rai ardaloedd yng Ngogledd Cymru (megis Wrecsam a Sir y Fflint) lefelau uwch o'r VOC nag ardaloedd eraill (hyder uchel).



Ffigur 3. Dosbarthiad daearyddol yr holl achosion o'r VOC a nodwyd yng Nghymru cyn 7 Rhagfyr 2020 (map ar y chwith) a'r holl achosion o'r VOC a nodwyd yng Nghymru hyd at 6 Ionawr 2021 (map ar y dde)

Mae'r data mwyaf diweddar yn awgrymu cynnydd yng nghyffredinrwydd y VOC yn Ne Cymru, gyda digwyddedd o 25% ar hyn o bryd (cynnydd o 50% mewn wythnos, er bod hyn yn seiliedig ar is-set o achosion positif yn unig). Gwelwyd cynnydd o 21% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hyd at 26 Rhagfyr, gan godi i 32% erbyn 2 Ionawr (hyder cymedrol-uchel). Mae angen dadansoddi set samplau fwy cynrychiadol o Dde Cymru er mwyn cael mwy o hyder, ond os bydd yr amrywiolyn newydd yn tyfu yng Nghymru ar yr un gyfradd â Llundain, Dwyrain a De-ddwyrain Lloegr, bydd yn arwain at gyfnod o ragor o bwysau sylweddol ar y GIG (hyder uchel).

Ar lefel y boblogaeth, mae data arolygon diweddar yn awgrymu bod rhywfaint o dystiolaeth o ddifyg cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd ar waith, gan gynnwys cymysgu aelwydydd a theithio nad yw'n hanfodol, er bod y mwyafri o bobl yn parhau i'w dilyn⁵. Bydd rhagor o ddata ar gael dros yr wythnosau nesaf. Yn hollbwysig, mae'r cyngor ar fynd i'r afael â chyfradd trosglwyddo'r amrywiolyn yn parhau i fod fel y

⁵ [Y Grŵp Cyngor Technegol, Policy Modelling: December 2020 and January 2021 \(18 Rhagfyr 2020\)](#)

nodir yn y diweddariad diweddar gan y Grŵp Cyngor Technegol, gyda phwyslais ar aros gartref, cadw pellter cymdeithasol wrth fynd allan, osgoi cymysgu cymdeithasol, golchi dwylo, defnyddio gorchuddion wyneb, awyru cartrefi, cael prawf os oes symptomau a hunanynysu pan fo'n ofynnol⁶. At hynny, mae SAGE yn argymhell annog pobl i gydymffurfio ag ymyriadau o'r fath drwy gyfuniad o gydnabod ymdrechion y cyhoedd hyd yma, rhoi sail resymegol glir dros weithredoedd y credir eu bod yn angenrheidiol, creu atebion derbyniol lle bo risg yn anodd ei hosgoi, rhoi cymorth a chyfathrebu mewn ffordd ddiwylliannol briodol⁷. Unwaith eto, mae hyn yn gyson â'r cyngor sydd wedi cael ei roi drwy gydol y pandemig hyd yma.

Addysg ac ysgolion

Mae'r dystiolaeth sy'n cronni yn gyson â'r casgliad bod mwy o gynnydd yng nghyfraddau trosglwyddo SARS-CoV-2 (y straen presennol, math gwylt) ymhliith plant ysgol pan fydd ysgolion ar agor, yn enwedig ymhliith plant oedran ysgol uwchradd (hyder uchel): mae sawl ffynhonnell data yn dangos gostyngiad yn y cyfraddau trosglwyddo ymhliith plant ar ôl i'r ysgolion gau ar gyfer gwyliau hanner tymor, a chynnydd yn y cyfraddau trosglwyddo unwaith eto ar ôl i'r plant ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn y gwyliau (hyder canolig). Mae'n anodd mesur maint yr effaith hon, ac mae'n parhau i fod yn anodd mesur lefel y trosglwyddo sy'n digwydd mewn ysgolion yn benodol o gymharu â lleoliadau eraill, gan y bydd oedolion yn mynd i'r gwaith, mwy o deithio a chymudo, a gweithgareddau cofleidiol, cymunedol a chwaraeon⁸ drwy gydol diwrnodau ysgol pan fydd yr ysgolion ar agor. (Is-Grŵp Plant SAGE)

Roedd dadansoddiad gan SYG a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr yn cymharu cysylltiadau ymhliith plant oedran ysgol ac oedolion yn Lloegr a gasglwyd drwy Arolwg Heintio yn y Gymuned COVID-19. Yn ôl y dadansoddiad hwn, cynyddodd cysylltiadau plant yn ystod y tymor (ac eithrio yn ystod hanner tymor) ond, mewn cyferbyniad â hynny, “*across all ages of socially distanced contacts, in adults the number of socially distanced contacts has decreased over time from late September or early October, which could be because of tighter local and national restrictions.*”⁹ Yn yr un modd, roedd adroddiad CoMix ar wythnos 38 ei arolwg, a oedd yn edrych ar ddata hyd at 15 Rhagfyr 2020, yn dweud: “*The age group <18 years have much higher and variable contacts overall [when compared with the general population] driven by educational contacts*”.¹⁰

Mae'r feirws yn lledaenu pan fydd unigolyn sydd wedi'i heintio yn dod i gysylltiad ag un neu fwy o unigolion nad ydynt wedi'u heintio, a hynny drwy gyswllt uniongyrchol

⁶ [Y Grŵp Cyngor Technegol, Brief on the viral variant VOC-2020/12/01 \(24 Rhagfyr 2020\)](#)

⁷ [EMG/SPI-B/TWEG: Mitigations to reduce transmission of the new variant SARS-CoV-2 virus \(22 Rhagfyr 2020\)](#)


⁸ [TFC: Children and transmission - update paper \(17 Rhagfyr 2020\)](#)

⁹ [Coronavirus \(COVID-19\) Infection Survey: characteristics of people testing positive for COVID-19 in England and antibody data for the UK: December 2020 \(14 Rhagfyr 2020\)](#)

¹⁰ [CoMix social contact survey, week 38, data to 15 December 2020](#)

(o un person i'r llall neu drwy drosglwyddo defnynnau), neu drwy gyswilt anuniongyrchol (lledaenu aerosolau neu fagwrfeidd haint).¹¹ Felly, mae'n debygol bod y niferoedd cymharol uwch o gysylltiadau y mae'n ymddangos bod plant wedi'u cael, ar gyfartaledd, yn ystod yr hydref, o gymharu ag oedolion, wedi cyfrannu at y cynnydd mewn cyfraddau heintio yn Lloegr ymhlieth plant oedran ysgol, yn enwedig plant oedran ysgol uwchradd, yn ystod yr hydref.¹²


Yng Nghymru, yn ôl data lechyd Cyhoeddus Cymru, mae cyfraddau achosion a gadarnhawyd ymhlieth plant oedran ysgol hefyd wedi cynyddu yn ystod yr hydref a'r gaeaf, er bod y rhain wedi bod yn is na'r cyfraddau ymhlieth grwpiau oedran eraill fel arfer, ac yn parhau i fod felly ar hyn o bryd, ac yn gyson ar eu hisaf ymhlieth grwpiau oedran cyn ysgol ac ysgolion iau – gweler Ffigurau 4 a 5 isod. (Mae newidiadau mewn patrymau profi dros gyfnod y Nadolig yn gwneud y data ar gyfer pythefnos olaf data lechyd Cyhoeddus Cymru yn anos eu dehongli, yn ogystal â'r ffaith y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli data mwy diweddar.)



Ffigur 4. Achosion a gadarnhawyd o COVID-19 fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran, Cymru (Storfa Ddata lechyd Cyhoeddus Cymru 9am 04/01/2020)

¹¹ Y Grŵp Cyngor Technegol: statement regarding non-pharmaceutical interventions in the pre-Christmas period (7 Rhagfyr 2020)

¹² Mae'r cyfraddau heintio cynyddol hyn yn Lloegr i'w gweld yn y papur SAGE a ddyfynni'r yn nodyn 9 uwchben defnyddio data Arolwg Heintio yn y Gymuned SYG.



Figur 5. Achosion a gadarnhawyd o COVID-19 fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu samp l a grŵp oedran ysgol, Cymru (Storfa Ddata Iechyd Cyhoeddus Cymru 9am 04/01/2020)

Mae adroddiadau Arolwg Heintio yn y Gymuned SYG ar nodweddion y bobl sydd wedi cael canlyniad prawf COVID-19 positif yn nodi bod tua thraean wedi cael diagnosis tra nad oedd ganddynt symptomau. Mae'r cyfranogwyr yn rhoi gwybod am unrhyw symptomau drwy'r arolwg ac mae'r cyfraddau hyn yn gyson ymhliith pob grŵp oedran, ar y cyfan, er y bydd hyn yn cynnwys achosion cyn-symptomatig ac ôl-symptomatig yn ogystal ag achosion asymptomatig, wrth gwrs.¹³ Ceir rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau heintio heb arddangos symptomau gan fod gwaith ymchwil a wnaed yn gynharach yn ystod y pandemig wedi awgrymu y gallai fod mwy o achosion asymptomatig ymhliith plant o gymharu ag oedolion.¹⁴¹⁵ Roedd canlyniadau cynnar o Arolwg Heintio mewn Ysgolion SYG a gynhaliwyd yn Lloegr ac a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr yn dangos lefelau heintio isel tebyg ymhliith staff a disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (ac felly heb symptomau clir, gan na ddylai unigolion â symptomau fynd i'r ysgol). Ymhliith y rhai a brofwyd, cafodd 1.24% o ddisgyblion ac 1.29% o staff ganlyniad positif am haint presennol.¹⁶ Dylid nodi mai'r gyfradd

¹³ [Coronavirus \(COVID-19\) Infection Survey: characteristics of people testing positive for COVID-19 in England and antibody data for the UK: November 2020](#) – gweler ffigur 6.


¹⁴ Er enghraift S. Beale, A. Hayward, L. Shallcross, R. W. Aldridge ac E. Fragaszy, "A Rapid Review of the Asymptomatic Proportion of PCR-Confirmed SARS-CoV-2 Infections in Community Settings," 2020, <https://www.gov.uk/government/publications/nervtag-rapid-review-of-the-asymptomatic-proportion-of-pcr-confirmed-sars-cov-2-infections-in-community-settings-9-september-2020> (adolygiad o'r llenyddiaeth hyd at 25 Awst 2020); R. Viner, J. Ward, L. Hudson, M. Ashe, S. Patel, D. Hargreaves ac E. Whittaker, "Systematic review of reviews of symptoms and signs of COVID-19 in children and adolescents," ar-lein yn <https://adc.bmjjournals.org/content/early/2020/12/16/archdischild-2020-320972> (adolygiad o'r llenyddiaeth hyd at 25 Hydref 2020); N. G. Davies, P. Klepac, Y. Liu, K. Prem, M. Jit, gweithgor COVID-19 CMMID ac R. M. Eggo, "Age-dependent effects in the transmission and control of COVID-19 epidemics," *Nature Medicine*, cyf. 26, tt. 1205-15, cyhoeddwyd 16 Mehefin 2020, ar-lein yn <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/32546824/>; Buitrago-Garcia D, Egly-Gani D, Counotte MJ, Hossmann S, Imeri H, Ipekci AM, et al. Occurrence and transmission potential of asymptomatic and presymptomatic SARS-CoV-2 infections: A living systematic review and meta-analysis. *PLoS medicine*. 2020; Medi 17(9) <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC7508369/pdf/pmed.1003346.pdf> (adolygiad o'r llenyddiaeth hyd at 10 Mehefin 2020)

¹⁵ [COVID-19 Schools Infection Survey Round 1, England: Tachwedd 2020 \(17 Rhagfyr 2020\)](#)

cofrestru cyfranogwyr amcangyfrifedig ar gyfer cylch cyntaf profion yr Arolwg Heintio mewn Ysgolion yw 17% ar gyfer disgylion a 55% ar gyfer staff, sy'n rhoi hyder isel y gellir cyffredinoli'r canfyddiadau hyn. Mae dulliau newydd o ymgysylltu â chyfranogwyr yn cael eu rhoi ar waith i gynyddu niferoedd y cyfranogwyr ar gyfer cylchoedd profi dilynol. Dylid hefyd nodi bod cynllun yr astudiaeth (sy'n gorsamplu ysgolion mewn rhannau o Loegr lle roedd cyfraddau heintio COVID-19 ar eu huchaf ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) yn golygu na fwriedir i'r data a gyflwynir allu cael eu cymhwys o'n gyffredinol i bob ysgol yn Lloegr.

Nid oedd y patrwm o achosion a gadarnhawyd a chlystyrau o achosion sy'n gysylltiedig ag ysgolion yng Nghymru a nodwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod tymor yr hydref yn dangos bod cyfran fawr o'r trosglwyddo yn gysylltiedig ag ysgolion. Rhwng Medi 2020 a 23 Rhagfyr 2020, nodwyd bod 7,304 o achosion newydd o COVID-19 yn gysylltiedig ag 1,127 o ysgolion; 3,176 o achosion (43%) ymhliith staff a 4,128 (57%) ymhliith disgylion. O gyfanswm o 1,573 o ysgolion ledled Cymru, mae hyn yn cynrychioli 71.6% o ysgolion sydd wedi cael achos o COVID-19 yn ystod tymor yr hydref 2020. O'r rhain, roedd 245 o ysgolion (16% o ysgolion) yn gysylltiedig ag un achos yn unig. Yn y 21 diwrnod cyn 23 Rhagfyr 2020, o'r 1,573 o ysgolion ledled Cymru, nid oedd 760 o ysgolion (48%) yn gysylltiedig â'r un achos, roedd 262 (17%) yn gysylltiedig ag un achos, 166 (11%) â dau achos, 107 (7%) â thrï achos, 196 (12%) â rhwng pedwar ac wyth achos, 71 (5%) â rhwng naw ac 19 o achosion, ac 11 (llai nag 1%) â 20 neu fwy o achosion (Ffigur 6).¹⁷

- Excluding 262 schools that have had only 1 case.



Ffigur 6. Nifer yr ysgolion lle y nodwyd mwy nag un achos o COVID-19 yn y 21 diwrnod diwethaf (lechyd Cyhoeddus Cymru).

¹⁷ PHW Schools and Colleges COVID-19 summary report (23 Rhagfyr 2020)

Nid yw data Arolwg Heintio yn y Gymuned SYG rhwng 2 Medi ac 16 Hydref yn dangos tystiolaeth o wahaniaeth yng nghyfraddau athrawon/gweithwyr addysg yn Lloegr sy'n cael canlyniad prawf SARS-CoV-2 positif o gymharu â gweithwyr allweddol ac aelodau o broffesiynau eraill (hyder canolig). Gwelir hyn wrth gyfuno categorïau gwahanol o staff ysgol yn y gwaith dadansoddi. Roedd tystiolaeth wyliadwriaeth o'r Alban a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr yn dangos nad yw athrawon yn yr Alban yn wynebu mwy o risg o dreulio amser yn yr ysbyty oherwydd COVID-19 o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, a'u bod yn wynebu llai o risg o gael COVID-19 difrifol o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, ond bod y risg o gael canlyniad prawf positif wedi bod yn uwch ymhliath athrawon na'r boblogaeth gyffredinol ers ailagor ysgolion yn yr Alban. Fodd bynnag, roedd cyfraddau profi yn yr Alban yn gymharol uchel ymhliath athrawon ar ôl i'r ysgolion ailagor, felly gall hynny fod yn gyfrifol am y cynnydd yn y risg o gael canlyniad prawf positif. Serch hynny, mae addysgu yn alwedigaeth sy'n golygu gweithio mewn lleoliadau gyda niferoedd mawr o bobl eraill. Fel y cyfryw, gall hyn fod yn gyfrifol am y cynnydd yn y risg o gael canlyniad prawf positif. Yn yr un modd, nid oedd y dadansoddiad hwn yn cymharu'r risg i athrawon â'r risg i bobl mewn swyddi eraill nad ydynt yn gysylltiedig â gofal iechyd sy'n cael eu gwneud yn y cnawd, fel yr heddlu, gofal cymdeithasol neu fanwerthu. Mae gan bobl sy'n gweithio mewn lleoliadau addysgol yn yr Alban lefelau tebyg o wrthgyrff i feirws COVID-19 yn eu gwaed o gymharu â'r boblogaeth oedolion gyffredinol.¹⁸ Bydd angen cadw golwg ar y risg o heintio ymhliath staff ysgol.

Er gwaethaf hyn oll, mae twf yr amrywiolyn newydd yn golygu y gall fod angen mesurau pellach y tu hwnt i'r rhai a roddwyd ar waith yn ystod tymor yr hydref. Llwyddodd y VOC i ledaenu yn Ne-ddwyrain Lloegr a Llundain er gwaethaf cyfyngiadau symud a oedd yn ddigonol i atal lledaeniad llinachau eraill SARS-CoV-2.¹⁹ Mae'n annhebygol iawn y byddai mesurau â'r un llymder a lefelau cydymffurfio â'r mesurau yn Lloegr ym mis Tachwedd (h.y. gydag ysgolion ar agor) yn ddigonol i gynnal R islaw 1 os bydd yr amrywiolyn newydd yn goruchafu. Byddai R yn is petai ysgolion ar gau, ac mae'n debygol y byddai cau ysgolion uwchradd yn cael mwy o effaith na chau ysgolion cynradd. Mae'n dal yn anodd canfod ble mae'r trosglwyddo rhwng plant yn digwydd, ac mae'n bwysig ystyried cysylltiadau a wneir y tu allan i ysgolion. Mae papur SAGE o 22 Rhagfyr²⁰ yn nodi bod agor ysgolion yn golygu cyfres ehangach o newidiadau i ymddygiad na'r rhai sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol ysgolion, ac sy'n addas ar gyfer mesurau lliniaru mewn ysgolion.

Ym mis Medi, rhoddodd SAGE gyngor mewn perthynas â'r amrywiolyn math gwyllt: “*Closing all schools associated with a reduction in R of 0.2~0.5. Moderate confidence. Closure of secondary schools may be more effective (reduction in R of ~0.35) as link more households, higher numbers of contacts within schools and transmission to/from younger children may be more limited. Overall, low confidence, as unclear how much schools may contribute to community transmission.*”²¹ Yn yr un

¹⁸ [Public Health Scotland, Enhanced surveillance of COVID-19 in education settings \(16 Rhagfyr 2020\)](#)

¹⁹ [Virological, Lineage-specific growth of SARS-CoV-2 B.1.1.7 during the English national lockdown \(30 Rhagfyr 2020\)](#)

modd, mae tystiolaeth fwy diweddar yn awgrymu bod Rt wedi gostwng 16-54% (amcangyfrif canolog o 38%) ar gyfer yr amrywiolyn math gwylt yn sgil cau ysgolion a phrifysgolion gyda'i gilydd²².

Nid yw'n hysbys a fyddai mesurau â llymder a lefelau cydymffurfio tebyg i'r gwanwyn, gydag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ar gau, yn ddigonol i ostwng R islaw 1 ym mhresenoldeb yr amrywiolyn newydd.²³ (SAGE 74, 22 Rhagfyr). Mae angen gwneud gwaith modelu pellach gan ddefnyddio model COVID-19 Prifysgol Abertawe er mwyn gwerthuso effeithiau iechyd posibl y VOC newydd dros amser. Wrth wneud hynny, bydd yn bwysig amcangyfrif effeithiau cau ysgolion ochr yn ochr â'r cyfraddau achosion posibl er mwyn helpu i amcangyfrif pryd y gellid llacio'r lefelau gweithredu.

Ceir tystiolaeth gadarn o hyd fod plant a phobl iau (<18 oed) yn llai tebygol o lawer o gael salwch clinigol difrifol na phobl hŷn (hyder uchel). Ceir tystiolaeth glir o effaith addysgol negyddol colli ysgol, yn enwedig ymhlið plant iau, am fod buddsoddiadau mewn dysgu plant yn tueddu i gronni ac atgyfnerthu dros amser (hyder uchel).²⁴ Dylai osgoi niwed addysgol fod yn flaenoriaeth o hyd.

Mae data rhagarweiniol o'r Arolwg Heintio mewn Ysgolion yn dangos bod mesurau Iliniaru gwahanol wedi cael eu rhoi ar waith mewn ffyrdd amrywiol mewn ysgolion. Mae angen dadansoddi'r cysylltiad rhwng arferion gwahanol a lefelau heintio ymhellach. Mae'r 'Hierarchaeth Rheoli Risg'^{25,26} yn gysniad pwysig a

²⁰ [SAGE, Seventy-fourth SAGE meeting on COVID-19 \(22 Rhagfyr 2020\)](#)

²¹ [SAGE, Non-pharmaceutical interventions \(NPIs\) table \(21 Medi 2020\)](#)

²² [Science, Inferring the effectiveness of government interventions against COVID-19 \(15 Rhagfyr 2020\)](#)

²³ [SAGE, Seventy-fourth SAGE meeting on COVID-19 \(22 Rhagfyr 2020\)](#)

²⁴ [SAGE, Children's Task and Finish Group: update to 4th Nov 2020 paper on children, schools and transmission \(17 Rhagfyr 2020\)](#)

[SAGE, SPI-B/DfE: COVID-19: Benefits of remaining in education - evidence and considerations \(4 Tachwedd 2020\)](#)

[SAGE, Benefits of remaining in education: Evidence and considerations SPI-B and DfE \(4 Tachwedd 2020\)](#)

²⁵ [SAGE, Mitigations to Reduce Transmission of the new variant SARS-CoV-2 virus SAGE-EMG, SPI-B, Transmission Group \(23 Rhagfyr 2020\)](#)

²⁶ [CDC, Hierarchy of Controls \(13 Ionawr 2015\)](#)

dylid ei rhoi ar waith yn llym mewn ysgolion. Os bydd yr amrywiolyn newydd yn cael effaith orfodi gryfach ar gyfraddau trosglwyddo yn y gymuned ac achosion mewn ysgolion, yna dylid cyflwyno rheolaethau mwy cadarn mewn ymateb i hyn, e.e. dysgu cyfunol (amnewid), profion llif unffordd cyfresol ar gyfer cysylltiadau, maint dosbarthiadau (swigod) llai, cyfnodau atal byr, arolygiadau cydymffurfio (gweinyddu), defnydd ehangach o orchuddion wyneb neu fygydau meddygol (mesurau diogelu). Bydd yn bwysig gwneud gwaith modelu a gwerthuso pellach ar strategaethau profi ysgolion (e.e. profion llif unffordd cyfresol) mewn perthynas â dynameg yr amrywiolyn newydd wrth i ysgolion a sefydliadau addysg ailagor. Yn unol â chyngor SAGE uchod, dylid gwneud mwy o waith gyda phlant, myfyrwyr, teuluoedd a sefydliadau i sicrhau bod mesurau rheoli yn effeithiol, yn deg, yn cael eu deall ac yn gyflawnadwy. Mae SPI-B²⁰ a'r Grŵp Cyngor Technegol²¹ wedi rhoi cyngor ar ddeall

²⁰ [SAGE, SPI-B: Increasing adherence to COVID-19 preventative behaviours among young people \(22 Hydref 2020\)](#)

²¹ [Y Grŵp Cyngor Technegol, Nodyn ar ddeall ymddygiad o ran systemau olrhain cysylltiadau a phobl ifanc \(1 Hydref 2020\)](#)

ymddygiad a chynyddu lefelau cydymffurfio gan gyfeirio at bobl ifanc yn y gorffennol. Bydd hefyd yn bwysig lleihau niweidiau anuniongyrchol y mesurau rheoli hyn lle bynnag y bo modd.

Ni ddylai ysgolion gael eu defnyddio mewn modd anghymesur fel mesur rheoli ar gyfer gostwng Rt, yn enwedig os nad yw ymyriadau anfferyllol sydd eisoes ar waith yn cael eu dilyn cystal â phosibl (e.e. cymysgu dan do). Dylid gwneud pob ymdrech posibl i leihau cymysgu yn y gymuned, yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Ochr yn ochr â'r nod o gynnal gweithrediadau ysgolion i leihau niwed y mae modd ei osgoi i blant, byddai strategaeth gyfathrebu glir yn cael ei chyflwyno a ddylai gyfleo i'r gymuned na ddylid llacio'r rhagofalon yn ehangach, gyda negeseuon cliriach bod Haen 4 yn golygu 'Arhoswch yn eich cartref' ac nid 'Arhoswch yng nghartrefi eich ffrindiau neu eich teulu estynedig', a lleihau cysylltiadau cymdeithasol ac wyneb yn wyneb, hyd yn oed i blant y tu allan i'r ysgol.

Mae **Atodiad 1** yn crynhoi'r dystiolaeth wyddonol bresennol mewn perthynas ag ysgolion ac addyssg.

Atodiad 1: Tystiolaeth wedi'i chyhoeddi

1. **Ar 4 Tachwedd 2020, cytunodd SAGE 65²²** ar ddatganiad clir ynghylch y manteision a gynigir i blant a phobl ifanc yn sgil gallu cael addysg yn effeithiol. Daeth i'r casgliad canlynol:
'In this note, SPI-B and DfE have outlined the key evidence and considerations associated with the closure of schools. These have been grouped by theme:

- A. Educational Outcomes*
- B. Health, Wellbeing and Development*
- C. Vulnerable Children and Socioeconomic Inequalities*
- D. Classroom Learning Outcomes vs. Remote Learning*

It is important to note that school closures cannot be understood in isolation and tend to be accompanied by other restrictions (e.g. mixing beyond school, cancellation of sporting activities) and increased pressure on households (e.g. parents working from home, financial pressures).

Overall conclusions

1. *School closures put educational outcomes at risk, especially for disadvantaged students (High Confidence). Existing inequalities (High Confidence) and attainment gaps (Low/Medium Confidence) are already being*

²² [SAGE, SPI - B/DfE: COVID-19: Benefits of remaining in education - evidence and considerations \(4 Tachwedd 2020\)](#)

exacerbated. Opportunities for early identification of emerging learning problems are also missed during school closures (High Confidence).

2. School closures cause impairment to the physical and mental health of children. Evidence suggests that the mental health of adolescents is particularly affected (High Confidence). Cognitive, social, and emotional developmental outcomes are also at risk (Medium Confidence) as is physical health (Low Confidence).

3. School closures have a particularly adverse impact on vulnerable children due to reduced access to essential services (High Confidence). Other lockdown-related stressors for children and parents, such as economic uncertainty, are also likely to be exacerbated (Medium Confidence).

4. Extended periods of remote learning can lead to poorer educational outcomes, although some sources suggest that in the short-term adverse outcomes may be limited (Low Confidence).'

□ Ym mis Tachwedd 2020, nododd astudiaeth yn y Swistir,²³ ‘*While secondary school pupils remain largely unaffected by the school closures in terms of learning gains, for primary school pupils learning slows down and at the same time interindividual variance in learning gains increases. Distance learning arrangements seem an effective means to substitute for in-person learning, at least in an emergency situation, but not all pupils benefit to the same degree.*’

2. Ar 17 Rhagfyr 2020, cytunodd SAGE 73 ar grynodeb o ganlyniad y papur wedi'i ddiweddu mewn perthynas â phlant ac ysgolion²⁴. Nid oedd hyn yn cynnwys data ar y VOC. Roedd y papur yn diweddu negeseuon o SAGE 65 a oedd yn atgyfnerthu manteision parhau i gael addysg i blant a phobl ifanc, ac yn cadarnhau tystiolaeth a oedd eisoes yn hysbys ac a oedd yn gyson â'r syniad bod y cynnydd mewn cyfraddau trosglwyddo yn Lloegr yn digwydd ymhliith plant ysgol pan fo ysgolion ar agor, yn enwedig plant oedran ysgol uwchradd (hyder uchel): sawl ffynhonnell data yn dangos gostyngiad yn y cyfraddau trosglwyddo ymhliith plant ar ôl i'r ysgolion gau ar gyfer gwyliau hanner tymor, a chynnydd yn y cyfraddau trosglwyddo unwaith eto ar ôl i'r plant ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn y gwyliau (hyder canolig). Mae'n parhau i fod yn anodd mesur maint yr effaith hon, a hefyd yn anodd mesur lefel y trosglwyddo sy'n digwydd yn ystod y diwrnod ysgol yn benodol, o gymharu â lleoliadau eraill (megis gweithgareddau cofleidiol, teithio, a mathau eraill o gymysgu cymdeithasol pan fo ysgolion ar agor).

²³ International Journal of Psychology. Educational gains of in-person vs. distance learning in primary and secondary schools: A natural experiment during the COVID-19 pandemic school closures in Switzerland (24 Tachwedd 2020)

²⁴ SAGE, Children and schools update Children's Task and Finish Group: update to 4 November 2020 paper on children, schools and transmission - 17 Rhagfyr 2020

3. Ar 18 Rhagfyr, daeth NERVTAG i gasgliadau mewn perthynas â'r amrywiolyn newydd (B.1.1.7) sydd wedi cael eu cyhoeddi.²⁵ Mae'r cofnodion yn dweud:

- *'The committee therefore has high confidence that B.1.1.7 can spread faster than other SARS-CoV-2 virus variants currently circulating in the UK.*
- *The underlying cause of that faster spread is, as yet unclear. A range of factors including the time it takes for infected people to become infectious, the amount of virus they then shed and the ability of that virus to bind to host cells are all possible contributors to the underlying observation that the new variant spreads faster.*
- *There is considerable uncertainty around other aspects of variant B.1.1.7 including the age distribution of cases and the severity of illness. Greater clarity on these issues should be available in the next few days. The lag from infections to hospitalisations and deaths means that it will take some time before there can be confidence around disease severity associated with infection with B.1.1.7.*
- *Preliminary analysis by Imperial College suggests that in children aged <15 years there may be an increase in transmission of variant B.1.1.7 compared to other variants. Modelling by LSHTM suggests that with this variant, school closure may be needed to maintain R below 1. However, these data are preliminary, and more work is required before any firm conclusions can be reached.*
- *There are currently no data on the ability of serum from patients who have recovered from COVID-19 or have been vaccinated against SARS-CoV-2 to neutralise variant B.1.1.7. This work is ongoing but will not be available for around two weeks.*
- *The committee supported ongoing urgent efforts to establish the geographic extent of B1.1.7 variant in other parts of the UK. There was particular need to establish if the increase in transmission in parts of Wales is related to variant B.1.1.7.'*

4. Cyhoeddodd y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Clefydau friff asesu bygythiadau ar yr amrywiolyn newydd ar 29 Rhagfyr²⁶²⁷. Mae'r briff hwn yn dweud:

